

Y prif beth i'w nodi yw nad oes amserlen glir gan y Cyngor i symud i weithio'n Gymraeg. Mae argymhellion a chynllun gweithredu ei hun gan y Cyngor a byddan nhw'n cydymffurfio â'r Safonau, ond ble mae'r cynllun a'r amserlen hir-dymor er mwyn i'r cyngor symud i weithio'n Gymraeg?

Dwyieithrwydd:

Beth yw dwyieithrwydd i'r Cyngor?

Mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn siomedig, mae angen gweinyddu yn bennaf drwy'r Gymraeg.

Wrth drafod y Safonau daeth yn amlwg fod rhai cynghorwyr yn gweld fod gwneud popeth yn ddwyieithog yn ddigonol

Safbwynt y Gymdeithas yw bod dwyieithrwydd yn ffafrio un iaith dros y llall, yn draddodiadol, Saesneg.

Cyfieithu:

Mae cost cyfieithu yn bwnc llosg – mae pawb yn ei weld fel rhywbeth costus. Dadl y Gymdeithas wrth gwrs yw mai Cymraeg ddylai prif iaith y Cyngor fod, byddai hynny'n golygu nad yw cyfieithu yn cael ei weld fel cost neu wariant o ran y Gymraeg.

Barn rhai cynghorwyr yw fod angen blaenoriaethu cyllid, byddai'n well gwario ar wersi Cymraeg yn lle cyfieithu.

Mae rhai cynghorwyr yn dewis siarad Saesneg mewn cyfarfodydd weithiau am nad yw'r emosiwn a'r angerdd yn cael ei gyfleu drwy'r cyfieithydd

Hyfforddi:

Mae hyfforddiant yn allweddol.

Mae'n anymarferol i staff rhan amser ee staff rheng-flaen mewn Canolfannau hamdden sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fynd mas i'r gymuned i ddysgu Cymraeg – beth am drefnu sesiynau hyfforddiant i ee staff gwersi nofio yn y canolfannau hamdden a bod gwersi yn gyffredinol yn digwydd *in house*. Byddai cyfle i deilwra a threfnu hyfforddiant addas i'r unigolyn.

Mae angen paratoi pobl a rhoi sgiliau i bobl allu gweinyddu a gweithio'n Gymraeg, a buddsoddi er mwyn datblygu sgiliau.

Nodwyd bod arferion da o fewn sefydliadau megis Prifysgol Abertawe a CBAC ble mae annog Cymry Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gweithio gyda nhw a mentora er mwyn i staff fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Mae nifer o Aelodau Cynulliad wedi cyrraedd y Senedd yn ddi-Gymraeg ond wedi cael hyfforddiant ac yn gallu dechrau trafodaeth neu wedi dysgu Cymraeg yn ddigonol. Hynny'n dangos ei fod yn bosibl felly.

Llynedd fe gafodd dros 500 o staff hyfforddiant iaith (dysgu / gloywi) yn ôl y Cyngor – ond ydy e y math o hyfforddiant sydd yn golygu y gallan nhw ddefnyddio'r Gymraeg?

Safonau:

Mae'r Cyngor yn bendant am herio'r safonau am gyfarfodydd heb gyfieithydd.

Bydd gwrthwynebu'r safonau yn hytrach na gofyn am ragor o amser, mae'n debyg fod bwriad i gyrraedd y safonau hynny yn y pendraw, ond does dim amserlen benodol.

Roedd gwrth-ddweud ymysg cynghorwyr, gyda rhai yn dweud mai cost yw'r broblem o ran cyfieithu, sydd yn dangos fod angen i'r Cyngor symud i weithio'n Gymraeg, ac eraill yn dweud nad oedd cost yn broblem ac mai amser oedd yr her.

Heriau i weithredu'r Safonau yn ôl cynghorwyr oedd bod rhai rheolwyr yn ei weld fel her am nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg. Mae 70% o'r rheolwyr yn 'rhugl' (lefel 5 ALTE) ond tua chwarter ohonyn nhw ddim yn hyderus eu Cymraeg; a bod angen i bawb wybod beth sy'n digwydd.

Strategaeth Sgiliau Iaith

Nifer mewn un grŵp yn poeni'n fawr mai Lefel 1 yw'r cymhwyster sydd angen ar staff sy'n gweithio'n y Cyngor. Lefel sylfaenol iawn, a pha mor gyflym y mae disgwyl iddynt anelu at Lefel 2 ac yna 3? Beth yw'r amserlen?

Nodwyd fod staff Heddlu Gogledd Cymru yn gorfod anelu at y lefelau nesaf a fod dyrchafiad swydd yn ddibynnol ar hyn. Mae swyddogion a chynghorwyr wedi bod yn ymweld â nhw.

Mae'r Cyngor yn pryderu am gael dirwy os na fydden nhw'n gallu cyrraedd y Safonau.

Petai'r cyfleusterau hamdden yn cael eu gwerthu i'r 3ydd sector bysen nhw yn gorfod cydymffurfio â Safonau.

Dylanwad y Prif Weithredwr – rhoi'r argraff anghywir o'r sefydliad

Sawl un yn meddwl fod angen newid ar y top, cael gwared o Marc James! Mae yma i aros tan yr ad-drefnu.

Iaith y Cyngor / Sir Gâr:

Gwasanaethau gofal – mae'n hollbwysig fod hwn ar gael yn Gymraeg ond beth yw'r sefyllfa?

Roedd barn fod y cyfrifiad yn gamarweiniol, gan fod rhaid ateb 'ie' neu 'na' i'r cwestiwn a ydyn nhw'n siarad Cymraeg. Os nad yw pobl yn gallu siarad Cymraeg hollol gywir maen nhw'n dewis 'na'.

Nodwyd y bu yna Gynllun Peilot flynyddoedd yn ôl ble;r oedd yr Adran Addysg yn dechrau gweinyddu'n Gymraeg ond ddaeth dim byd ohono. Doedd rhai o swyddogion y Cyngor ddim yn ymwybodol o'r Cynllun Peilot, felly mae angen edrych beth ddigwyddodd gyda'r Cynllun. Yn draddodiadol adrannau addysg yw'r adrannau Cymreiciac ac awgrymwyd y gellid dechrau yn yr Adran Addysg bron yn syth.

Cafwyd enghreifftiau o ddogfennau uniaith Saesneg yn cael eu danfon at Lywodraethwyr gan yr Adran Addysg at lywodraethwyr ysgol categori A; a neges gan yr adran cyfathrebu, eto yn uniaith Saesneg, at staff yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau Diwrnod Shwmae.

Roedd y syniad o roi y Gymraeg yn weledol ac yn gyntaf ar bob dogfen gan y cyngor yn un boblogaidd iawn gan ei fod yn syml, yn gallu digwydd yn syth ac yn gam i'r cyfeiriad cywir o roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Roedd amheuaeth am y syniad o gael gwybodaeth uniaith Gymraeg ar wahân i rai uniaith Saesneg am y rheswm syml y byddai modd i nifer o'r di-Gymraeg golli y cyfle i weld yr iaith Gymraeg ar daflenni a nifer sy'n teimlo nad yw eu Gymraeg yn ddigon da felly byddai'n gofyn am ohebiaeth yn Saesneg.

Ble fydd y Cyngor mewn 12 mis a beth yw'r rhagolygon wedyn?